DEDDF PRIFFYRDD 1980

Gorchymyn Atgyfeirio Llwybr Cyhoeddus (Llwybr Troed Cyhoeddus Rhif 9 yng Nghymuned Coedpoeth (Y Bers gynt)) Bwrdeistref Sirol Wrecsam 2003

Ar 14 Gorffennaf 2004, cadarnhaodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam y Gorchymyn uchod a wnaed dan Adran 119 Deddf y Priffyrdd 1980.

Effaith y Gorchymyn a gadarnhawyd yw atgyfeirio'r Llwybr Troed Cyhoeddus a ddisgrifir yn Rhan 1 yr Atodiad i'r Rhybudd hwn hyd at linell a ddisgrifir yn Rhan 2 yr Atodiad i'r Rhybudd hwn.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a gadarnhawyd a map y Gorchymyn yn rhad ac am ddim yn Neuadd y Dref, Wrecsam a'r Swyddfa Bost, 7 Stryd Fawr, Coedpoeth, Wrecsam LL11 3RY yn ystod oriau agor/swyddfa arferol. Gellir cael copïau o'r Gorchymyn a'r map yn rhad ac am ddim o Neuadd y Dref, Wrecsam.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 15fed Gorffennaf 2004, ond os oes unrhyw un a dramgwyddwyd gan y Gorchymyn yn dymuno cwestiynu ei ddilysrwydd, neu unrhyw ddarpariaeth a geir ynddo, ar y sail nad yw o fewn pwerau Deddf y Priffyrdd 1980, fel y'i diwygiwyd, neu ar y sail na chydymffurfiwyd ag unrhyw un o ofynion y Ddeddf, fel y'i diwygiwyd, neu unrhyw un o'r rheoliadau a wnaed dan y Ddeddf mewn perthynas â'r Gorchymyn, gall ef neu hi, dan baragraff 2 Atodiad 2 i'r Ddeddf, fel a gymhwysir gan bargraff 5 Atodiad 6 i'r Ddeddf, wneud cais i'r Uchel Lys o fewn 6 wythnos i 15 Gorffennaf 2004.

ATODIAD
Rhan 1
Disgrifiad o safle'r ffordd neu'r llwybr presennol

Y rhan honno o Lwybr Troed Cyhoeddus Rhif 9 yng Nghoedpoeth (Y Bers gynt) ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam o bwynt ar gyfeirnod grid 32928 35055 i gyfeiriad gogledd-gogledd-orllewinol am oddeutu 13 metr i derfyn y cae ar gyfeirnod grid 32927 35056 yna i gyfeiriad gorllewinol cyffredinol am oddeutu 29 metr i'r llidiart tro ar gyfeirnod grid 32924 35057 o led amhenodol, cyfanswm o tua 42 metr, fel a ddangosir gan linell ddu drom barhaus rhwng pwyntiau A-B-C ar y map sy'n atodedig i'r Rhybudd hwn.

Rhan 2
Disgrifiad o safle'r ffordd neu'r llwybr newydd

Llwybr troed cyhoeddus sy'n llwybr y mae gan y cyhoedd hawl tramwy ar droed yn unig arno, 1.8 o led o Lwybr Troed Cyhoeddus Rhif 9 yng Nghymuned Coedpoeth (Y Bers gynt) ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam ar gyfeirnod grid 32928 35055 i gyfeiriad gorllewinol yn gyffredinol am oddeutu 40 metr i bwynt ar gyfeirnod grid 32924 35056 yna i gyfeiriad gogledd-gogledd-ddwyreiniol yn gyffredinol yn gyfochrog â ffens y terfyn am oddeutu 11 metr i'r llidiart tro ar gyfeirnod grid 32924 35057, cyfanswm o tua 51 metr fel a ddangosir gan linell ddu doredig rhwng A-D-C ar y map sy'n atodedig i'r Rhybudd hwn.

Dyddiedig y 15fed diwrnod hwn o Orffennaf 2004

Trevor Coxon
Prif Swyddog Cyfraith a Gweinyddiaeth
Neuadd y Dref
Blwch SP 1284
Wrecsam
LL11 1WF